Prifysgol Bangor

# COFNODION Y CYNGOR

Mewn cyfarfod o’r Cyngor a gynhaliwyd yn y Brifysgol ddydd Gwener, 3 Hydref 2019.

**Presennol**:
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Mr Mark Barrow, Dr Tomos Dafydd, Yr Athro Iwan Davies, Yr Athro Andrew Edwards, Dr Peter Higson, Yr Athro Jerry Hunter, Dr Griff Jones, Dr Karen Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Syr Paul Lambert, Yr Athro Derec Llwyd Morgan, Miss Lleucu Myrddin, Ms Ellen Parry-Williams, Miss Julie Perkins, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro David Thomas, Yr Athro Carol Tully, Yr Athro Oliver Turnbull, Mr Tudur Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

**Ymddiheuriadau**:
Dr Myfanwy Davies, Mrs Alison Lea-Wilson, Dr Ian Rees

## 19.01 CROESO

Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Iwan Davies i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor fel Is-ganghellor.

Croesawodd y Cadeirydd hefyd Dr Myfanwy Davies, sy'n aelod newydd sydd wedi ei henwebu gan y staff academaidd.

Yn dilyn argymhelliad gan y Cadeirydd, ***penderfynwyd*** bod yr Athro Derec Llwyd Morgan yn cael ei benodi'n aelod annibynnol o'r Cyngor o 1 Hydref 2019 am dymor cychwynnol o 4 blynedd. Cafodd ei groesawu i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

## 19.02 MARWOLAETHAU

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau’r canlynol yn ddiweddar:

> **Y Barnwr Eifion Roberts**; Cymrawd er Anrhydedd o'r Brifysgol a chyn-gadeirydd y Cyngor
> **Eirwen Read**; cyn aelod staff yn yr Adran Ddrama a'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol

Safodd yr aelodau er cof amdanynt.

## 19.03 LLONGYFARCHIADAU

**Ar dderbyn Cadair er Anrhydedd:**

> Yr Athro Mark Bellis; Coleg Gwyddorau Dynol
> Yr Athro Chris Burton; Ysgol Gwyddorau Iechyd
> Mr Derek Nesset; Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig
> Dr John Idris Jones; Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig
> Yr Athro Emeritws Bob Borsley; Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth

**Llongyfarchwyd y canlynol gan y Cadeirydd hefyd:**

> **Dr Chris Staples**, o'r Ysgol Gwyddorau Meddygol, sydd wedi derbyn cymrodoriaeth Future Leader gan UK Research and Innovation (UKRI). Bydd yn ymuno ag ymchwilwyr ac arloeswyr o bob cwr o'r Deyrnas Unedig sydd yn derbyn buddsoddiad gyda'r nod o roi hwb i'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr gwyddonol wrth iddynt wneud gwaith ymchwil arloesol a datblygu annibyniaeth eu hymchwil.

Adroddwyd fod **Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)** yn un o bedair canolfan ymchwil ym maes gwyddorau cymdeithas yn y Deyrnas Unedig i lwyddo yng Nghystadleuaeth Canolfannau Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Bydd WISERD yn cael £6.3 miliwn fel ail-fuddsoddiad i barhau â'i hymchwil i gymdeithas sifil – dyma'r trydydd tro yn y ddeng mlynedd sydd ers sefydlu WISERD i'r sefydliad ddenu cyllid sylweddol.

Bydd canolfan gwyddor data newydd ar gyfer ynni gwyrdd yn cael ei chreu ym Mhrifysgol Bangor, gyda chymorth £4.6m o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y **Ganolfan Ynni Effeithlon Craff (SEEC)** yn datblygu ymchwil ar y cyd rhwng sefydliadau a busnesau yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Bydd yn ymchwilio i'r dewisiadau ar gyfer defnyddio gwyddor data mawr i wella effeithlonrwydd systemau ynni carbon isel gan gynnwys ynni niwclear, ynni'r môr ac ynni gwynt ar y môr.

Adroddwyd y bydd Prifysgol Bangor yn arwain datblygiad **darpariaeth iechyd meddwl trwy gyfrwng Cymraeg** i fyfyrwyr ledled Cymru, diolch i gais llwyddiannus am arian gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Daeth tîm o aelodau staff o amrywiol adrannau yn y Brifysgol ynghyd â chydweithwyr o sefydliadau partner i ddatblygu portffolio cyffrous o ddarpariaeth, a gaiff ei ddatblygu a'i lansio dros y 10 mis nesaf

## 19.04 DATGANIADAU BUDD

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Ni chafodd unrhyw fudd ei ddatgan sy'n berthnasol i'r eitemau ar yr agenda.

## 19.05 COFNODION

A. Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2019.

B. Gan gyfeirio at:

   [1] **Bargen Twf y Gogledd** (cofnod 18.101B2); adroddodd yr Is-ganghellor fod materion yn datblygu'n gadarnhaol a bod Penawdau Telerau wrthi'n cael eu cytuno a'u llofnodi.

   [2] **Adolygiad Auger** (cofnod 18.104[5]); adroddodd yr Is-ganghellor nad yw pob un o'r argymhellion yn Adolygiad Auger at ddant y llywodraeth gyfredol. Mae'r bygythiad wedi cilio rhyw fymryn ac mae'n debygol nad oes bwriad bellach i fwrw ymlaen â gostwng lefelau ffioedd i £7500.

[3] **Pwyllgor Iechyd a Diogelwch** (cofnod 18.116); adroddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fod gweithgor bychan wedi'i sefydlu i ystyried absenoldebau tymor hir am resymau cyhyrysgerbydol. Mae'r grŵp yn gwerthuso arferion gwaith, ynghyd â hyfforddiant a threfniadau rheoli absenoldebau, ac mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu. Defnyddir yr ystadegau diwedd blwyddyn i werthuso'r tueddiadau ymhellach ac i nodi meysydd sy'n achosi pryder a meysydd lle ceir potensial, a fydd wedi hynny'n bwydo i fenter y Brifysgol i hyrwyddo iechyd a lles holl gymuned y Brifysgol.

[4] **Tŵr Alun Roberts** (cofnod 18.5 B4); cytunwyd y dylid cyflymu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y papur briffio am risgiau ac ar y camau lliniaru mewn perthynas â Thŵr Alun Roberts. Nodwyd bod y Gwasanaeth Eiddo a Champws wedi gweithredu'n amserol i fynd i'r afael â phryderon diweddar am ffasâd yr adeilad. Mae'r Coleg wedi paratoi cynlluniau parhad busnes pe bai angen gadael yr adeilad.

C. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cyngor. Nododd y Cyngor gynnydd a chamau gweithredu a gwblhawyd.

## 19.06 MATERION YR IS-GANGHELLOR

A. Tynnodd yr Is-ganghellor sylw'r Cyngor at nifer o faterion.

[1] **Brexit**; Nododd yr Is-ganghellor fod y llywodraeth yn bryderus am gyflogaeth pe digwydd Brexit heb gytundeb a bod angen i Brifysgolion fod yn barod i ymdrin ag unrhyw gynnydd mewn diweithdra ac uwchsgilio’r gweithlu. Nodwyd bod Erasmus+ yn debygol o gael ei weinyddu trwy'r Cyngor Prydeinig yn dilyn Brexit, er nad yw'n eglur a fyddai hyn yn symud ymlaen pe digwydd Brexit heb gytundeb. Roedd gan Horizon Europe, olynydd Horizon 2020 gyllideb uwch o £120bn, ond roedd diffyg eglurder ynghylch cyfranogiad y Deyrnas Unedig yn dilyn Brexit; mae'n debygol y byddai gan y Deyrnas Unedig statws cysylltiol a dim dylanwad uniongyrchol dros yr agenda ariannu.

[2] **Fisa Gweithio ar ôl Astudio**; Nodwyd y newyddion da a gafwyd yn ddiweddar ynglŷn â chyflwyno fisa gweithio ar ôl astudio i fyfyrwyr rhyngwladol am gyfnod o 2 flynedd. Roedd hyn yn bwysig iawn ar gyfer recriwtio rhyngwladol, yn enwedig o rai marchnadoedd, megis India.

[3] **Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol**; Prin iawn hyd yma yw'r ymdrechion i gynnwys rhanddeiliaid o'r sector a mynegwyd pryder ynghylch y ffordd yr oedd hyn yn datblygu. Nodwyd nad oes ond 18 mis yn weddill o dymor presennol y Senedd ac roedd pryder y gallai'r ddeddfwriaeth gael ei rhuthro.

[4] **Cenhadaeth Ddinesig**; Hoffai Llywodraeth Cymru bod cenhadaeth ddinesig yn cael ei fesur fel un o ddangosyddion perfformiad allweddol prifysgolion yng Nghymru. Mae'r Athro Hunter yn datblygu strategaeth cenhadaeth ddinesig ar gyfer Prifysgol Bangor a fydd yn cael ei chyflwyno maes o law yn un o gyfarfodydd y Cyngor.

[5] **Difidend Diamond**; Mynegwyd pryder fod y gefnogaeth i addysg uwch yn pylu o du Llywodraeth Cymru ac mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch y tebygolrwydd

o gael rhagor o gyllid yn dilyn gweithredu Adolygiad Diamond. Nodwyd yr angen i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac ar wleidyddion a gofynnodd y Cadeirydd fod nodiadau'n cael eu llunio fel bod aelodau'r Cyngor yn deall egwyddorion Adolygiad Diamond er mwyn gallu cefnogi'r gwaith o lobïo.

[6] **Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol HEFCW**; Nododd y Cyngor Lythyr Adolygu Risg Sefydliadol HEFCW. Aseswyd y Brifysgol fel risg gymedrol, gyda rhywfaint o ddirywiad ers yr asesiad a gynhaliwyd y llynedd. Nodwyd nad oedd unrhyw bethau annisgwyl ac y byddai'r Pwyllgor Gweithredu yn darparu'r wybodaeth ychwanegol ac yn cefnogi'r ymwneud ychwanegol y mae HEFCW yn gofyn amdano. Mae'r ymatebion sy'n ofynnol erbyn 30 Medi eisoes wedi'u cyflwyno i HEFCW a byddant yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor er gwybodaeth.

## 19.07 DIWEDDARIAD UNDEB Y MYFYRWYR

A. Adroddwyd bod 35 o fyfyrwyr Prifysgol Bangor wedi cerdded i gopa Kilimanjaro, mynydd uchaf Affrica, ym mis Medi, er budd yr elusen iechyd meddwl Mind. Cefnogwyd y daith gan Gronfa Bangor a chafodd y myfyrwyr eu llongyfarch gan y Cyngor am godi bron i £100,000.

B. Derbyniodd y Cyngor adroddiad gan Undeb y Myfyrwyr ar eu gweithgareddau, eu hymgyrchoedd a'u digwyddiadau diweddar. Tynnodd y Llywydd sylw at y gefnogaeth y mae Undeb y Myfyrwyr yn ei rhoi i gyflogadwyedd a nodi mai bwriad yr Undeb yw ymgorffori hyn yn rhan o'i weithgareddau. Mae adroddiad ynghylch gwirfoddoli ac effaith gymdeithasol wrthi'n cael ei lunio; mae'n cynnwys dros 50 o weithgareddau ac yn cefnogi cenhadaeth ddinesig y Brifysgol. Roedd yr Wythnos Groeso a Serendipedd yn llwyddiant ac roedd yr Undeb wedi defnyddio'r cyfle i hyrwyddo ei rôl o ran cynrychiolaeth academaidd. Nododd UMCB fod myfyrwyr newydd yn frwd am ddysgu Cymraeg ac maent yn adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr; mae cynllun gweithredu ar gyfer yr Wythnos Groeso'n cael ei ddatblygu yn ogystal â rhagor o gynrychiolaeth academaidd cyfrwng Cymraeg.

## 19.08 ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDU

Cymeradwywyd yr adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019 (ynghlwm fel Atodiad I i'r copi swyddogol o'r cofnodion). Nodwyd y canlynol:

[1] **Cynaliadwyedd Ariannol;** Mae'r Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol wedi cael amlenni cyllidebol ar gyfer cyflogau ac eitemau ac eithrio cyflogau, a hynny cyn 1 Awst 2019 am y tro cyntaf yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Pwyllgor Gweithredu wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y ddau Achos Busnes dros Newid olaf, sef un y Gwasanaeth Eiddo a Champws ac un yr Ysgol Addysg a bydd y penderfyniadau'n cael eu gweithredu yn unol â'r polisi Rheoli Newid.

[2] **Ffioedd Dysgu;** mae'r Pwyllgor Gweithredu wedi cytuno ar y ffioedd dysgu ar gyfer 2020/21. Mae'r Pwyllgor Gweithredu hefyd wedi cytuno ar gynllun ysgoloriaeth newydd

i Fyfyrwyr Rhyngwladol sy'n gysylltiedig â rhoi gostyngiad oddi ar le mewn neuadd breswyl

[3] **Addysg Ddeintyddol;** mae cyfarfod diweddar gyda Phrif Swyddog Deintyddol Cymru wedi tynnu sylw at gyfleoedd sylweddol i Brifysgol Bangor ym maes addysg ddeintyddol.

[4] **Adolygiad o'r Grwpiau Tasg;** mae'r strwythur gwneud penderfyniadau o dan y Pwyllgor Gweithredu wedi ei adolygu i sicrhau rhagor o ffocws wrth wneud penderfyniadau strategol.

[5] **Addysg Gychwynnol Athrawon**; nododd y Cyngor bwysigrwydd hyfforddi athrawon ar gyfer yr economi leol. Adroddodd yr Is-ganghellor fod recriwtio i AGA wedi bod yn well na'r disgwyl, a bod recriwtio i'r ffrwd Gymraeg yn uwch nag y bu ers 5 mlynedd. Yn anffodus, mae'r cymhellion i hyfforddi yng Nghymru yn llawer is nag yn Lloegr; mae hwn yn fater y mae angen ei gyfleu i Lywodraeth Cymru

[6] **Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil;** Nodwyd pa mor bwysig yw ymgorffori diwylliant sy'n rhoi pwys ar effaith.

## 19.09 BARGEN TWF Y GOGLEDD

A. Ystyriodd y Cyngor bapur yn rhoi diweddariad ynglŷn â Bargen Twf y Gogledd. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

[1] Yn y cyfarfod diwethaf, ystyriodd y Cyngor bapur yn ymwneud â gwaredu Safle Stryd y Deon. Cytunwyd bryd hynny nad oedd yn bosibl bwrw ymlaen â gwaredu'r safle, ac y dylai'r Brifysgol ystyried opsiynau amgen ar gyfer gwaredu'r ased a allai roi gwell elw i'r Brifysgol.

[2] Mae Bargen Twf y Gogledd yn gyfle gwych i Brifysgol Bangor gyfrannu at dwf economaidd yn y rhanbarth a datblygu ei strategaeth academaidd a'i strategaeth ystadau ei hun trwy gyd-fuddsoddi deallus, gan fanteisio ar gronfeydd newydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru trwy gyfrwng ei chynlluniau buddsoddi ei hun i gefnogi rhagoriaeth ymchwil ac arloesi.

[3] Bydd llofnodi Penawdau Telerau Bargen Twf y Gogledd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a'r partneriaid ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gam sylweddol ymlaen wrth grisialu'r uchelgais wreiddiol yn gynigion ac yn weithredoedd pendant.

[4] Ochr yn ochr â chyllid EIB y Brifysgol, bydd cyllid Bargen Twf y Gogledd yn darparu cyd-fuddsoddiad mewn cyfleusterau ymchwil ac isadeiledd cysylltiedig ar Safle'r Gwyddorau ac yn M-Sparc. Er bod rhywfaint o ailfeddwl wedi bod ynghylch project gwreiddiol yr Ardal Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mae'r materion craidd yn aros, sef ystyried dyfodol Tŵr Alun Roberts, adnewyddu'r Adeilad Coffa a’r posibilrwydd o adeiladu adeilad newydd ar y safle gwag y tu ôl i’r Adeilad Coffa.

[5] Pan ystyriwyd gwerthu safle Stryd y Deon, y bwriad oedd symud ymlaen yn gyflym i adnewyddu Tŵr Alun Roberts. Efallai bod y bwriad hwnnw bellach yn afrealistig o ran amserlen ond yn bwysicach fyth o ran yr adenillion ar y buddsoddiad. O ganlyniad, mae dal gafael ar safle Stryd y Deon yn hanfodol i ddatblygiad cyffredinol safle'r gwyddorau ac i unrhyw asesiad realistig o ran rhaglennu'r amserlen, ac mae canfod lle i adleoli iddo dros dro yn debygol o fod yn hanfodol fel rhan o ddatblygiadau eraill sy'n deillio o'r Strategaeth Ystadau newydd.

[6] Ar hyn o bryd, mae project Bargen Twf y Gogledd, y gwaith o lunio Cynlluniau Busnes Amlinellol a Chynlluniau Busnes llawn yn ôl y Model 5 Achos yn y dyfodol, yn cael ei reoli gan Grŵp Llywio Bargen Twf y Gogledd dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil. Wrth inni symud yn nes at broject sydd wedi'i ddatblygu'n llawn, bydd angen trefniadau llywodraethu priodol o dan fframwaith llywodraethu projectau'r Brifysgol. Yn ogystal, mae Grŵp Tasg a Gorffen bach dan gadeiryddiaeth yr Is-ganghellor yn cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith o integreiddio gweithgareddau Bargen Twf y Gogledd yn rhan o'r Strategaeth Ystadau ehangach.

[7] Mae'r Is-Ganghellor yn aelod heb bleidlais o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac wedi bod yn trafod gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol. Mae wedi trefnu cyfarfodydd gyda phob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, er mwyn alinio ein syniadaeth strategol ni â chynlluniau rhanbarthol eraill. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i Fangor ym Margen Twf y Canolbarth wrth iddi ddatblygu a nodwyd bod yr Is-ganghellor yn trafod ag Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth.

B. Nododd y Cyngor ymrwymiad parhaus y brifysgol i Fargen Twf y Gogledd, a'r syniadaeth gyfredol ynghylch datblygu safle'r gwyddorau ar Ffordd Deiniol, a ***chytunwyd*** i ddal gafael ar safle Stryd y Deon yn y tymor byr.

## 19.10 RECRIWTIO MYFYRWYR

A. Cafwyd adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol ynghylch y sefyllfa bresennol mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr. Nodwyd:

[1] Bod y Pwyllgor Gweithredu wedi derbyn diweddariadau wythnosol ynghylch recriwtio myfyrwyr yn cymharu nifer y myfyrwyr a dderbyniwyd yn ystod Awst/Medi gyda'r un cyfnod y llynedd.

[2] Disgwylir i niferoedd israddedigion ac ôl-raddedigion hyfforddedig cartref/Undeb Ewropeaidd gyrraedd y targed yn y rhagolygon ariannol.

[3] Mae niferoedd myfyrwyr israddedig tramor yn uwch na rhai'r llynedd ac mae ôl-raddedigion hyfforddedig yn sylweddol uwch na'r llynedd ac oddeutu 210 o fyfyrwyr yn uwch na'r targed yn y rhagolygon ariannol. Tybir bod llawer o'r twf hwn oherwydd newidiadau i'r taliadau a wnaed i asiantau.

[4] Yn seiliedig ar y ffigyrau presennol, mae'n edrych yn debygol y gallai'r Brifysgol sicrhau incwm ychwanegol o oddeutu £2.1m, o'i gymharu â'r lefelau sydd wedi eu cynnwys yn y rhagolygon ariannol. Fodd bynnag, mae costau ychwanegol o

oddeutu £1m yn gysylltiedig â ffioedd ychwanegol i asiantau a llefydd gwag yn y neuaddau o ganlyniad i'r newid yn y proffil o fyfyrwyr Cartref/Undeb Ewropeaidd i fyfyrwyr tramor.

[5] Mae rhai risgiau o hyd ynghylch trosi ceisiadau'n dderbyniadau pendant, yn enwedig o ystyried y cynnydd sylweddol mewn myfyrwyr tramor, a'r gwaith i ddal gafael ar fyfyrwyr. Cedwir golwg ar y sefyllfa dros yr wythnosau nesaf.

B. Nododd yr Is-ganghellor bod angen canolbwyntio ar y gwendid sylfaenol yn y busnes craidd o recriwtio myfyrwyr israddedig cartref. Mae'r Athro Andrew Edwards wedi ymgymryd â'r brîff strategol ar gyfer recriwtio myfyrwyr a bydd yn blaenoriaethu cyfleoedd yn ysgolion Busnes a'r Gyfraith. Mae strategaeth recriwtio newydd wrthi'n cael ei datblygu, a fydd yn cynnwys blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu blynyddoedd sylfaen, ac mae'r Brifysgol yn gweithio'n strategol mewn partneriaeth ag UCAS i ddarparu gwell dealltwriaeth a chefnogaeth marchnata ar sail data.

C. Nododd aelodau'r Cyngor eu pryder bod rhaglen Seren yn annog myfyrwyr i fynd i brifysgolion y tu allan i Gymru. Mae Is-gangellorion a Chadeiryddion prifysgolion Cymru wedi codi eu pryderon yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog.

D. Roedd y Cyngor yn falch o nodi'r gwelliant mewn recriwtio tramor ond nodwyd bod y crebachu pellach ar recriwtio Israddedigion Cartref yn destun pryder sylweddol. Gofynnodd y Cyngor am gyflwyniad gan yr Athro Edwards ar ein strategaeth recriwtio yn y cyfarfod nesaf.

## 19.11 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

A. **Grantiau a Chontractau Ymchwil**; Nodwyd bod sefyllfa gyffredinol o ran denu grantiau ymchwil yn unol â'r sefyllfa'r llynedd a bu cynnydd bychan yn gyffredinol. Nodwyd bod angen edrych ar hyn yng nghyd-destun y newidiadau sy'n digwydd o ran cyllido. Mae'r gostyngiad o 83% mewn grantiau o'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei achosi'n bennaf gan ansicrwydd ynghylch Brexit, ond nodwyd bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn chwilio am gyfleoedd ychwanegol i ddenu cyllid.

B. Nododd y Cyngor y cyfleoedd i ymwneud o'r newydd â diwydiant i osod sylfaeni ar gyfer cyllid newydd dan arweiniad diwydiant.

## 19.12 ADRODDIAD PROFIAD MYFYRWYR

A. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Profiad Myfyrwyr blynyddol gan Undeb Bangor ac ymateb y Brifysgol i'r adroddiad. Cyflwynodd Llywydd yr Undeb yr adroddiad i'r Cyngor. Nododd y Cyngor fel a ganlyn:

[1] Bod cynnwys yr adroddiad yn seiliedig ar ddata o amrywiaeth o ffynonellau, yn bennaf o arolwg yr Undeb ei hun ond hefyd adborth gan gynrychiolwyr cwrs a ffynonellau eraill megis yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol wedi hynny’n cynnig atebion i'r materion a godwyd yn adroddiad yr Undeb. Mae hyn yn rhan allweddol o'r gweithio mewn partneriaeth sy'n digwydd

rhwng y brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ac mae'n unol â'r gofynion a nodwyd gan HEFCW mewn perthynas â Llais Myfyrwyr.

[2] Eleni, mae'r adroddiad yn cynnwys sawl canmoliaeth a sawl argymhelliad i'r Brifysgol mewn perthynas ag ystod eang o feysydd, gan gynnwys trefniadau a rheolaeth, Panopto, asesu ac adborth, llais myfyrwyr, y llyfrgell a myfyrwyr rhyngwladol.

[3] Cafodd yr Undeb eu llongyfarch gan y Brifysgol am lunio adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth. Amlinellir y ffyrdd o roi sylw i'r materion amrywiol yn nogfen Ymateb y Brifysgol a luniwyd gan y Dirprwy Is-ganghellor dros Addysg a Phrofiad Myfyrwyr ar ôl ymgynghori â chydweithwyr perthnasol. Rhannwyd Ymateb y Brifysgol gyda Undeb Bangor ac maent yn fodlon gyda'r camau gweithredu arfaethedig.

[4] O dan Fframwaith Sicrhau Ansawdd Cymru, mae disgwyl i gyrff llywodraethu ddarparu sicrwydd ansawdd i HEFCW bob blwyddyn, trwy gadarnhau nifer o ddatganiadau, gan gynnwys, bod y corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y ddeialog flynyddol rhwng y sefydliad ac undeb y myfyrwyr.

B. Nododd y Cyngor y meysydd a gafodd ganmoliaeth ac y gwnaed argymhellion yn eu cylch yn adroddiad Undeb Bangor, a nodi hefyd ymateb y Brifysgol sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Nodwyd yn benodol bod angen ffocws strategol ar gyflogadwyedd.

## 19.13 AROLYGON MYFYRWYR

A. Nododd y Cyngor y perfformiad diweddar yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS), yr Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Hyfforddedig (PTES) a'r Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Ymchwil (PRES). Nodwyd y pwyntiau canlynol:

[1] Cyfradd boddhad cyfartalog Bangor yn yr NSS oedd 88% sy'n ein gosod yn $9^{ed}$ o blith prifysgolion anarbenigol y Deyrnas Unedig ac yn gydradd ail yng Nghymru. Yn yr NSS mae gan Brifysgol Bangor ugain pwnc yn yr ugain safle uchaf yn y Deyrnas Unedig, a naw rhaglen a gafodd sgôr boddhad o 100%. Mae rhai ysgolion yn parhau i fod â lefelau boddhad is ac mae hyn yn parhau i gael sylw.

[2] Mae'r Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Hyfforddedig (PTES) yn arolwg ar gyfer y sector addysg uwch yn ei chyfanrwydd yn y Deyrnas Unedig, a'i fwriad yw casglu gwybodaeth gan fyfyrwyr ôl-radd hyfforddedig am eu profiad mewn perthynas â dysgu ac addysgu. Y gyfradd ymateb gyffredinol i'r arolwg oedd 39% (33% yn 2018). O ran y rhestrau byd-eang, mae'r brifysgol yn $16^{eg}$ drwodd a thro, yn $7^{fed}$ am drefniadaeth, yn $8^{fed}$ am wybodaeth, yn $9^{fed}$ am adnoddau, yn $10^{fed}$ am ddatblygu sgiliau, yn $17^{eg}$ am addysgu, yn $36^{ain}$ am ennyn diddordeb myfyrwyr ac yn $36^{ain}$ hefyd am asesu. Mae'r sgoriau hyn i gyd allan o 84.

[3] Mae'r Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Ymchwil (PRES) yn arolwg ar gyfer y sector addysg uwch yn ei chyfanrwydd yn y Deyrnas Unedig sy'n casglu gwybodaeth oddi wrth fyfyrwyr ymchwil ôl-radd am eu profiad mewn perthynas â dysgu a goruchwyliaeth. O ran y rhestrau byd-eang mae'r Brifysgol yn $52^{fed}$ drwodd a thro, yn $23^{ain}$ am gyfrifoldebau, yn $28^{ain}$ am ddatblygiad proffesiynol, yn $29^{ain}$ am

ddiwylliant ymchwil, yn 49fed am oruchwyliaeth, yn 54fed am adnoddau, yn 63ain am gynnydd/dilyniant ac yn 80fed am sgiliau ymchwil. Mae'r sgoriau hyn i gyd allan o 103.

B. ***Nododd*** y Cyngor y perfformiad yn y tri arolwg myfyrwyr a'r camau gweithredu sydd ar y gweill i wella profiad myfyrwyr.

## 19.14 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM EIDDO

A. Ystyriodd y Cyngor bapur yn rhoi diweddariad ar werthiannau eiddo diweddar. Nododd y Cyngor fel a ganlyn:

[1] Roedd gwerthiannau Bryn Llinos, Neaudd Ogwen a Phen-y-Ffridd yn mynd rhagddynt fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf.

[2] Mae'r cynnig o £1,000,025 am Ynys Faelog, y cytunwyd yn ei gylch yn y cyfarfod diwethaf, wedi cael ei dynnu'n ôl.

[3] Mae'r Asiantau Gwerthu sy'n gweithredu ar ran Prifysgol Bangor wedi derbyn cynnig newydd mewn perthynas ag Ynys Faelog. Mae'r asiantau wedi gofyn am gadarnhad o'r cyllid i gefnogi'r cynnig hwn ac maent yn hyderus y bydd y gwerthiant yn mynd yn ei flaen.

B. Cytunodd y Cyngor fel a ganlyn:

[1] y dylid gwerthu Ynys Faelog i Mr James Marshall am £950,000 yn amodol ar gwblhau'r contract; ac

[2] yn unol ag Adran 118 o Ddeddf Elusennau 2011, nid oes unrhyw bersonau cysylltiedig yn ymwneud â'r gwerthiant.

[3] bod yr aelodau, yn unol ag Adran 119(1)(c) Deddf Elusennau 2011, yn fodlon mai telerau'r cynnig ar gyfer gwaredu yw'r gorau y gellir yn rhesymol eu cael i'r Brifysgol a'u bod yn unol â'r cyngor a ddarparwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac y gall y gwerthiannau fynd rhagddynt.

## 19.15 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

A. Cymeradwywyd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd 11 Medi 2019 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion).

B. Gan gyfeirio'n benodol at Gofnod 530B (**Project Cyfalaf - Ardal Gwyddoniaeth a Thechnoleg**); roedd y Pwyllgor yn pryderu am y diffygion sylweddol a nodwyd yn yr adroddiad ac mae'r Cadeirydd wedi trafod yr adroddiad gyda'r Is-ganghellor newydd.

C. Derbyniodd a nododd y Cyngor y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20 i 2021/22 a baratowyd yn dilyn ymgynghori ag aelodau o Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac sy'n rhoi sylw i'r holl risgiau eithafol ac uchel ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## 19.16 PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

A. Nodwyd bod Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol wedi'i ddiwygio a'i gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror 2019. Ategir y Datganiad Polisi gan ddogfen Cyfrifoldebau a Threfniadau sy'n manylu ar swyddogaeth ac atebolrwydd pob lefel o'r sefydliad, yn unol â'r Safon Genedlaethol a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau. Ystyriodd y Cyngor nifer o newidiadau a ***chymeradwyo'r*** ddogfen.

B. Nododd y Cyngor y Crynodeb o brif ystadegau damweiniau ac afiechyd blwyddyn academaidd 2018/19. Nodwyd y bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol, a fydd yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd y bydd anafiadau y mae'n rhaid adrodd amdanynt yn unol â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn cael eu hadrodd yn llawn yn y cyfarfod nesaf.

## 19.17 PWYLLGOR STRATEGAETH A PHERFFORMIAD

A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Diswyddiadau a gynhaliwyd 21 Mehefin 2019 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y Cofnodion).

## 19.18 PWYLLGOR DISWYDDIADAU

A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Diswyddiadau a gynhaliwyd 12 Gorffennaf 2019 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion).

B. Cymeradwyodd y Cyngor yr argymhelliad y dylid diswyddo staff y mae eu contractau cyfnod penodol yn dod i ben rhwng 1 Awst 2019 a 31 Ionawr 2020 ar sail swydd yn dod i ben pe na bai unrhyw swyddi eraill addas yn cael eu pennu iddynt.

## 19.19 MATERION ADNODDAU DYNOL

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

[1] **Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol:** Yn y cyfarfod trafod terfynol ar gyfer 2019-20, bu i Gymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau wneud cynnig terfynol o 1.85% gyda chost ar lefel sector wedi ei fodelu. Yna rhoddodd yr undebau y weithdrefn anghydfod ar waith. Ar hyn o bryd mae'r undebau llafur yn cynnal pleidlais ymysg eu haelodau ar weithredu diwydiannol ynglŷn â'r canlyniad terfynol. Agorwyd pleidleisiau UCU ac UNSAIN ar ddydd Llun 9 Medi a byddant yn cau ar 30 Hydref. Mae Unite wedi cadarnhau un bleidlais gyfun ar fynd ar streic rhwng 23 Medi a 31 Hydref. Yn y cyfamser, mae Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau wedi rhoi gwybod i'r cyflogwyr eu bod yn ystyried bod y

trafodaethau cyflog wedi dod i ben ac y dylent roi'r codiadau cyflog a gynigir ar waith o 1 Awst 2019 yn ôl yr hyn a ganiateir gan eu systemau cyflogres.

Roedd rhagolygon ariannol Bangor yn caniatáu dyfarniad cyflog cyffredinol o 2%, ynghyd â chynyddrannau lle bo hynny'n briodol. Y tu hwnt i hyn, ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer dilyniant cyflog. Yn seiliedig ar argymhelliad Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau, mae'r Pwyllgor Gweithredu wedi cytuno i roi'r dyfarniad cyflog ar waith o fis Hydref. Y gobaith yw na fydd yr undebau llafur sydd mewn anghydfod yn ystyried y taliad hwn fel cam pryfoclyd, gan nad dyna ein bwriad. Y ffaith syml yw bod Prifysgol Bangor yn teimlo nad yw'n iawn i wneud i staff orfod disgwyl am sawl mis arall i dderbyn codiad cyflog.

Dylid nodi hefyd y byddai hyn yn cyd-fynd â gweithredu'r gyfradd cyfraniad gweithwyr o 9.6% ar gyfer tua 1,000 o staff sy'n deillio o setliad terfynol Prisiad USS 2018. Mae'r canlyniad hwn yn unol ag 'Opsiwn 3' a gefnogwyd gan y mwyafrif o gyflogwyr ac mae'n cynnwys 'rhannu' costau ychwanegol yr USS ar gymhareb 65/35 y cytunwyd arni gan y Cyd-bwyllgor Trafod ar 12 Medi. Mae aelodau'r USS eisoes wedi cael y wybodaeth hon trwy e-bost mewn bwletin gan Ymddiriedolwr yr USS.

[2] **Cymell/Mentora** Nodwyd bod darpariaeth cymell fewnol ac allanol ar gael i staff ar gais. Mae'r Brifysgol hefyd wedi lansio dau gynllun mentora i staff academaidd. Diben y ddau gynllun yw rhoi cyngor, arweiniad ac anogaeth i aelodau staff mewn perthynas â'u gwaith ac wrth iddynt gynllunio eu gyrfa at y dyfodol. Mae cynnwys y trafodaethau mentora hyn yn gyfrinachol. Mae sesiynau hyfforddi wedi'u darparu i bob mentor ac i bawb sy'n cael eu mentora.

B. Cytunodd y Cyngor i ddyfarnu statws Emeritws i'r Athro Mike Beckett.

C. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

## 19.20 SELIO

Cadarnhaodd y Cyngor selio’r dogfennau a restrwyd yn Agendum 14.

## 19.21 TRAFODAETH STRATEGOL

Yn dilyn cyfarfod ffurfiol y Cyngor, cafwyd cyflwyniadau gan yr Is-ganghellor a chan aelodau'r Pwyllgor Gweithredu ynghylch strategaeth tymor hwy ar gyfer y Brifysgol.